



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dyddiad cyhoeddi: 13 Medi 2019

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in Welsh.

Cynnwys

		Rhif tudalen
1	Cyflwyniad	3
2	Crynodeb Gweithredol	3
3	Crynodeb o'r prif themâu	5
4	Dadansoddiad o'r ymatebion i gwestiynau unigol	7
5	Digwyddiadau ymgynghori	26
	Atodiadau	
Atodiad A	Rhestr o ymatebwyr unigol ac ymatebion gan sefydliadau	27
Atodiad B	Dadansoddiad yn ôl Sector	29
Atodiad C	Ymatebion i'r ymgyrch	31

1. Cyflwyniad

Ar 18 Mawrth 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yr ymgynghoriad ar **Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol a llywodraethu ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**. Anfonwyd yr ymgynghoriad yn electronig at amrywiaeth eang o randdeiliaid ac roedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar sut i fynd i'r afael â'r bylchau mewn egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru yn deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r ddogfen ymgynghori **lawn – Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol a llywodraethu yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE** ar gael [yma](#).

Roedd y papur ymgynghori'n rhan o drafodaeth agored barhaus â rhanddeiliaid drwy:

- amlinellu cyd-destun newydd ymadael â'r UE;
- ystyried sut y cymhwyswyd egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith a pholisi Ewrop, y DU a Chymru;
- amlinellu'r strwythur llywodraethu amgylcheddol cyfredol o fewn yr UE a'r mecanweithiau sydd ar gael yng Nghymru
- darparu dadansoddiad o'r bylchau mewn egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol a fyddai'n digwydd yng Nghymru unwaith y byddai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd;
- ceisio barn ar ba egwyddorion ddylai fod yn gymwys yng Nghymru a sut;
- ceisio barn ar y nodweddion allweddol y byddai eu hangen ar system llywodraethu newydd;
- ystyried a allai unrhyw fecanweithiau llywodraethu amgylcheddol fod yn berthnasol ar lefel y DU.

2. Crynodeb Gweithredol

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o 12 wythnos, gan ddod i ben ar 9 Mehefin 2019. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys papur ymgynghori ysgrifenedig a 2 ddigwyddiad wedi'u hwyluso'n annibynnol ar gyfer rhanddeiliaid.

Cafwyd 1,912 o ymatebion ysgrifenedig.

Cyflwynwyd 1,851 o ymatebion o **ddwy** ymgyrch a drefnwyd gan y World Wide Fund for Nature (WWF) a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB). Cyflwynodd ymgyrch WWF 803 o ymatebion a nodwyd 93 gennym fel rhai dyblyg, gan roi cyfanswm o 710 o gyflwyniadau. Cyflwynodd ymgyrch yr RSPB 1048 o ymatebion, a nodwyd bod 164 ohonynt yn rhai dyblyg a oedd yn rhoi cyfanswm o 884. Yn gyfan gwbl, cofnodwyd cyfanswm o 1,594 o ymatebion yn seiliedig ar yr ymgyrch.

Mae **61** o ymatebion unigol wedi'u cofnodi i'w dadansoddi yn yr adroddiad cryno. Roedd **12** gan unigolion a **49** ar ran sefydliadau. Rhestrir yr ymatebwyr hyn yn Atodiad A.

Cynhaliwyd y ddwy ymgyrch gan WWF a'r RSPB (gweler Atodiad C am fanylion yr ymgyrchoedd unigol)

Roedd y ddwy ymgyrch yn cytuno â'r cynigion i gadw o leiaf y lefel bresennol o llywodraethu amgylcheddol a geir o fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

Cytunwyd hefyd y dylid ymgorffori pedair egwyddor amgylcheddol yr UE yng nghyfraith Cymru. Nododd ymgyrch yr RSPB fod angen i bob corff cyhoeddus yng Nghymru orfod cydymffurfio â'r pedair egwyddor.

Cefnogodd ymgyrch WWF ymestyn y ddyletswydd i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) i bob corff cyhoeddus.

Roedd y ddwy'n cefnogi sefydlu corff annibynnol newydd ar gyfer llywodraethu amgylcheddol gyda'r gallu i dderbyn ac ymchwilio i gwynion.

Roedd ymgyrch yr RSPB yn cefnogi cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a gweddill y DU er mwyn cyflawni ymrwymadau rhyngwladol.

Roedd ymgyrch yr RSPB yn cefnogi cyflwyno targedau amgylcheddol statudol.

Ychydig iawn o ymatebwyr i'r ymgyrchoedd ddewisodd ychwanegu sylwadau ychwanegol a lle cyflwynwyd rhai roeddent yn canolbwyntio ar ymrwymiad yr unigolyn i ddiogelu'r amgylchedd i raddau helaeth.

Derbyniwyd ymatebion yn electronig, drwy'r ffurflen ymateb ar-lein a thrwy e-bost.

Cafwyd ymatebion o'r ardaloedd daearyddol canlynol:

Gwlad	Nifer yr ymatebion
Cymru	37
Y DU	14
Anhysbys	10
Cyfanswm	61

Cafodd pob un o'r ymatebion eu haseinio i sector, ac mae'r manylion yn Atodiad B. Dyma ddadansoddiad o'r ymatebion fesul sector:

Sector	Nifer yr ymatebwyr	% o'r cyfanswm
Academaidd	2	3
Cymdeithasau/Sefydliadau	10	16
Unigolion	12	20
Cyfreithiol	2	3
Sector Preifat	1	2
Sector Cyhoeddus	10	16
Y Trydydd Sector	18	30
Undebau	2	3
Cyfleustodau	4	7
Cyfanswm	61	100

3. Crynodeb o'r prif themâu

Egwyddorion amgylcheddol

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr o blaid cael set o egwyddorion amgylcheddol i arwain datblygiad cyfraith amgylcheddol Cymru, ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno y dylid cynnwys unioni yn y tarddle a'r llygrwr sy'n talu. Fodd bynnag, darparwyd amrywiaeth eang o awgrymiadau ychwanegol gan ymatebwyr a oedd yn amrywio o egwyddorion ychwanegol, i amcanion ychwanegol yn ogystal â chynnwys hawliau.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod gwerth mewn nodi pedair egwyddor amgylcheddol yr UE yn glir (y llygrwr sy'n talu, unioni yn y tarddle, rhagofal ac atal) mewn un darn o ddeddfwriaeth.

Materion allweddol a godwyd oedd yr angen i benderfynu sut y câi'r egwyddorion newydd eu rhoi ar waith ac a fyddai angen canllawiau i helpu i wneud hynny.

Cefnogwyd cynnwys egwyddorion ychwanegol a chafwyd amrywiaeth eang o awgrymiadau. Y rhai mwyaf cyffredin a ddyfynnwyd oedd cymesuredd, rhagofal, integreiddio ac arloesi. Awgrymodd ymatebwyr hefyd y dylid cynnwys cyfranogiad y cyhoedd, mynediad at wybodaeth a mynediad i gyfiawnder, a ystyrir yn gyffredin fel hawliau o dan Gonfensiwn Aarhus.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid ymestyn dyletswydd i geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) i gyrff cyhoeddus ychwanegol, er bod

gwahaniaethau o ran pa gyrff a pha ddiffiniad. Mynegwyd gair o rybudd ynghylch y posibilrwydd o ychwanegu cymhlethdod at gyrff eraill, pe bai'r ddyletswydd yn cael ei hymestyn.

Strwythur atebolrwydd, hygyrchedd a gorfodaeth

Cytunai'r ymatebwyr yn bennaf â'r dadansoddiad o'r bylchau, a fyddai'n digwydd ym maes llywodraethu amgylcheddol ar ôl gadael yr UE, ac roeddent o blaid mynd i'r afael â'r bylchau hefyd. Cytunodd ymatebwyr y dylid mynd i'r afael â bylchau mewn mecanweithiau craffu, gorfodi ac ymdrin â chwynion ond nodwyd bylchau eraill hefyd mewn perthynas ag adrodd, mynediad at ddata a cholli cyngor ac arweiniad gan sefydliadau'r UE.

Cefnogwyd rôl y cyrff atebolrwydd presennol yng Nghymru ac roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylid ei chadw. Fodd bynnag, dywedodd llawer nad oedd yr un o'r cyrff hyn yn gallu ymgymryd â'r mathau hyn o fecanweithiau atebolrwydd ac, o'r herwydd, roedd llawer o blaid sefydlu corff pwrpasol newydd, yn enwedig un â phwerau gorfodi a chylch gwaith eang. Nodwyd na ddylai rôl y corff sy'n gyfrifol am lywodraethu amgylcheddol amharu ar rolau'r cyrff presennol na'u dyblygu.

Gwelwyd bod strwythurau sy'n gwarantu annibyniaeth, o ran penodiadau, gweithredu a gweithdrefnau ariannu, yn hanfodol ac roedd galw i sicrhau annibyniaeth.

Ystyriwyd mai rôl y corff, yn gyntaf, fyddai goruchwyllo'r gwaith o weithredu deddfwriaeth a gorfodi'r broses o roi cyfraith amgylcheddol ar waith – cefnogwyd swyddogaethau ychwanegol fel darparu cyngor ac adrodd ar gydymffurfiaeth fel swyddogaethau eilaidd. Roedd nifer yn teimlo y dylai rôl corff adlewyrchu unrhyw fframwaith trosfwaol a sefydlir mewn perthynas â'r egwyddorion amgylcheddol.

Yn gyffredinol, roedd y gefnogaeth i ddiffiniad eang ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi cynnwys y diffiniad o adnoddau naturiol yn adran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 naill ai fel y mae neu fel sail ar gyfer diffiniad mwy estynedig. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai pob corff cyhoeddus ddod o dan gylch gwaith y corff, er y cydnabuwyd gan rai ymatebwyr y gallai rhai o'r rhain fod yn rhai a gadwyd yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru. Nodwyd hefyd fod angen sicrhau nad oedd y cyrff cyhoeddus perthnasol a fyddai'n ddarostyngedig i'r cylch gwaith llywodraethu yn wynebu gwrthdaro neu orlwytho rheoleiddiol.

Cafwyd barn gymysg ynghylch pa fathau o swyddogaethau cynghori y dylid eu cyflawni, roedd rhai'n cefnogi rôl gynghori i gefnogi cydymffurfiaeth â'r gyfraith a chyflawni amcanion, gan y dylai rôl gynghori o'r fath fod yn gysylltiedig â'i swyddogaethau gorfodi cyffredinol. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn na ddylai gael ei gyfyngu i gynghori ar SMNR ond yn hytrach ar unrhyw gyfraith amgylcheddol.

Teimlwyd y dylid cael gweithdrefnau cwyno syml sy'n rhad ac am ddim, ac y dylai corff allu ymchwilio i gwynion a gweithredu arnynt, ond y dylai allu cynnal ei ymchwiliadau, ei waith monitro a'i adolygiadau thematig ei hun hefyd. Dylai corff allu gwneud y penderfyniad ei hun ynghylch pa gwynion y byddai'n ymchwilio ymhellach iddynt ond dylai fod proses dryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau, a fyddai'n cynnwys rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i achwynwyr.

O ran pwerau gorfodi, roedd cefnogaeth gyffredinol i ddull gweithredu fyddai'n cynnwys gweithdrefn uwchgyfeirio drwy fynd i'r afael â materion mor gynnar â phosibl a defnyddio dulliau amrywiol, a fyddai'n osgoi neu'n lleihau'r defnydd o fecanweithiau ffurfiol, yn enwedig atgyfeirio i'r llys. Beirniadwyd adolygiad barnwrol gan nifer o ymatebwyr am nad oedd yn ddull effeithiol ac roedd rhai yn ffafrio rôl ar gyfer tribiwnlys, megis y Tribiwnlys Amgylcheddol.

Arall

Roedd yr ymatebwyr yn gweld yn amlwg bod manteision i rannu egwyddorion amgylcheddol ar draws y DU, er nad mewn ffordd fyddai'n andwyol i natur flaengar cyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

Yn yr un modd, cefnogwyd yr angen i gydweithio'n agos ag unrhyw drefniadau llywodraethu eraill sy'n dod i'r amlwg yn y DU a chafwyd cefnogaeth gan nifer o ymatebwyr i sefydlu corff ar gyfer y DU gyfan i gyflawni hyn.

4. Dadansoddiad o'r ymatebion i gwestiynau unigol

Egwyddorion Amgylcheddol

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai'r egwyddorion canlynol gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth i Gymru?

- **Unioni yn y tarddle;**
- **Y llygrwr sy'n talu.**

Atebodd 55 o ymatebwyr gwestiwn 1. O'r rhain, cytunodd 46 y dylid cynnwys egwyddorion unioni yn y tarddle a'r llygrwr sy'n talu yn y ddeddfwriaeth. Roedd 1 ymatebydd yn ystyried mai dim ond unioni yn y tarddle y dylid ei gynnwys. Roedd 8 ymatebydd yn anghytuno.

Un thema gyffredin o ran pam roedd ymatebwyr am i'r egwyddorion gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth oedd er mwyn adlewyrchu'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd o dan fframwaith yr UE. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y byddai'n bwysig i'r egwyddorion fod yn ymarferol yng nghyd-destun Cymreig Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd rhai o'r ymatebwyr o blaid diwygio Deddf yr Amgylchedd (Cymru), gan ystyried y byddai trydydd darn o ddeddfwriaeth i ymdrin ag egwyddorion amgylcheddol yn debygol o gynyddu'r risg o fylchau.

O ganlyniad i ddealltwriaeth gynyddol o'r amgylchedd, ecosystemau ac adnoddau naturiol ers cynnwys y pedair egwyddor yng Nghytuniadau'r UE, holodd un ymatebydd hefyd a oedd pedair egwyddor amgylcheddol yr UE yn addas i'r diben bellach ac efallai na fyddent yn cyd-fynd â'r fframwaith deddfwriaethol a roddwyd ar waith gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo bod y fframwaith deddfwriaethol hwn yn dal yn ei fabandod o ran gweithredu ac y gallai ychwanegu cyfres o egwyddorion newydd ychwanegu at dirwedd sydd eisoes yn gymhleth, a chynigiodd un ymatebydd newid sylweddol i leihau canlyniadau annisgwyl. Teimlai eraill fod dealltwriaeth wael o'r egwyddorion presennol sy'n llywio cyfraith amgylcheddol yng Nghymru ac y gallai ychwanegu egwyddorion ychwanegol yn y cyd-destun hwn arwain at ddiffyg eglurder. Ond roedd eraill yn teimlo nad oedd egwyddorion rhagofal ac atal yn cael eu hadlewyrchu yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru).

O ran pwysigrwydd yr egwyddorion, dywedodd un ymatebydd fod 'y llygrwr sy'n talu' yn bwysig i fynd i'r afael â'r niwed y mae rhai sectorau yn ei wneud i ddyfrffyrdd, bioamrywiaeth ac ansawdd aer. Ond roedd eraill yn teimlo bod yr egwyddor hon wedi'i sefydlu'n dda mewn deddfwriaeth eisoes, megis y drefn trwyddedu amgylcheddol. Roedd rhai o'r farn, gan y gallai llygredd ddeillio o weithgareddau lluosog (ac felly partiön lluosog), bod angen i'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu fod yn gymwys i natur wasgarog llygredd a'r ffaith y gall gael ei 'achosi gan sawl parti'.

Er i gwestiwn 1 ofyn am egwyddorion y llygrwr sy'n talu ac unioni yn y tarddle, roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai pedair egwyddor yr Undeb Ewropeaidd gael eu hymgorffori'n glir mewn deddfwriaeth sylfaenol newydd er mwyn sicrhau eglurder ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru a sicrhau statws cyfreithiol trosfwaol clir ar gyfer y pedair egwyddor. Dywedodd un ymatebydd fod manteision i ymgorffori pob un o bedair egwyddor yr UE yn neddfwriaeth Cymru er mwyn darparu adnodd deongliadol i'r llysoedd.

Awgrymwyd hefyd fod angen eglurder ar yr egwyddor hon, a nododd un ymatebydd fod yr egwyddor rhagofal wedi bod yn anodd ei diffinio gan arwain at wahanol ddehongliadau o'r hyn y mae'n ei olygu, ac ychwanegodd fod "*Brexit yn cynnig cyfle i Gymru fabwysiadu dull gwahanol a gwella'r ffordd y cymhwysir yr egwyddor rhagofal drwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy*". Codwyd pryderon hefyd gan rai ymatebwyr ynghylch cymhwyso egwyddor rhagofal, y teimlid y gellid ei chamdddefnyddio neu ei cham-gymhwyso ac ystyriwyd bod angen cydbwysu'r risg o niwed yn erbyn manteision posibl.

Roedd cefnogaeth hefyd gan rai ymatebwyr i ddatblygu datganiad polisi ategol i sicrhau cysondeb wrth gymhwyso egwyddorion. Roedd eraill yn teimlo bod angen diffinio'r egwyddorion yn glir.

O ystyried y gefnogaeth gan y mwyafrif i gynnwys y ddwy egwyddor ychwanegol, ni chafwyd fawr ddim amrywiadau o ran safbwyntiau yn ôl sector, gyda'r rhan fwyaf o sectorau'n cytuno y dylid eu cynnwys.

Roedd ymgyrchoedd WWF a'r RSPB yn cefnogi cynnwys pedair egwyddor amgylcheddol yr UE yng nghyfraith Cymru.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu bod yna egwyddorion eraill y dylid eu cynnwys?

Atebodd 49 o ymatebwyr gwestiwn 2 ac o'r rhain, roedd 45 o'r farn y dylid cynnwys egwyddorion ychwanegol, ond roedd 4 o'r farn nad oedd angen unrhyw egwyddorion pellach.

Yn gyffredinol, barn mwyafrif yr ymatebwyr oedd y dylid ystyried nifer o egwyddorion eraill. Defnyddiodd rhai ymatebwyr y cwestiwn hwn hefyd i ailddatgan eu cefnogaeth i bedair egwyddor amgylcheddol yr UE. Gallai nifer o'r egwyddorion a gynigiwyd gael eu hystyried yn amcan neu'n hawl, er enghraifft, o dan Gonfensiwn Aarhus.

Yr egwyddorion ychwanegol a gefnogwyd fwyaf oedd rhagofal (12 ymatebydd), atal (7 ymatebydd), integreiddio (7 ymatebydd) a chymesuredd (5 ymatebydd).

Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i gwestiwn 1, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod atal a rhagofal naill ai heb eu sefydlu yn neddfwriaeth bresennol Cymru neu fod angen iddynt fod yn rhan o strwythur trosfwaol, a oedd yn gofyn am gyfeiriad a diffiniad penodol mewn deddfwriaeth Gymreig. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen cydbwysedd rhwng egwyddor rhagofal a chyflwyno egwyddor 'arloesi'. Roedd eraill o'r farn bod cyfle i gryfhau'r hyn a oedd eisoes yn bodoli yng Nghymru ac i Lywodraeth Cymru barhau â'i rôl fel llais amgylcheddol blaenllaw yn y DU.

Roedd nifer o ymatebwyr yn cynnig cynnwys egwyddor 'integreiddio' hefyd ac yn cydnabod bod gan 'reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy' o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) y potensial i sicrhau bod amcan SMNR yn cael ei ystyried mewn perthynas â'r holl weithgareddau a gyflawnir gan gyrff cyhoeddus ac felly'n gyfrwng posibl ar gyfer integreiddio.

Cynigiodd nifer o ymatebwyr egwyddor 'cymesuredd', sy'n gweithio mewn modd tebyg i egwyddor sybsidiaredd (fel y'i henwyd) o dan gyfraith yr UE, sy'n golygu, o dan yr UE, y bydd yr UE yn gwneud dim mwy na chymryd y camau sydd eu hangen er mwyn cyflawni ei nodau.

Roedd rhai egwyddorion eraill a gynigiwyd yn cynnwys 'gallu anifeiliaid i deimlo', 'sybsidiaredd', hierarchaeth gwastraff, a 'dilynant' er mwyn ymdrechu'n gyson i gyflawni safonau uwch yn hytrach na gwella ar y safonau hynny fel y'u hadlewyrchir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) ar hyn o bryd.

Yn ogystal ag awgrymiadau ar gyfer egwyddorion ychwanegol, mynegwyd cefnogaeth hefyd i ddeddfu i sicrhau na chymerir unrhyw gamau am yn ôl gyda safonau amgylcheddol, gyda rhai ymatebwyr yn ffafrio cam pellach o aliniad cynyddol er mwyn parhau i fod yn gyson â deddfwriaeth yr UE fel y'i cynigir yn Neddf Cyfraith sy'n deillio o'r UE (Cymru) 2018 (sydd wedi'i dirymu bellach).

Er i rai ymatebwyr gyfeirio at 'gyfranogiad y cyhoedd', 'mynediad at wybodaeth' a 'mynediad at gyfiawnder' fel egwyddorion, roedd eraill yn eu hystyried yn hawliau gweithdrefnol. Waeth pa ddsbarthiad a ddefnyddiwyd, roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y dylai'r rhain gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth hefyd gan y byddai hyn yn cydnabod eu rôl hanfodol mewn fframwaith llywodraethu.

Mynegwyd cefnogaeth hefyd i glymu'r egwyddorion i amcan statudol cyffredinol o lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd fel y darperir yng Nghytuniadau'r UE ochr yn ochr â datblygu cynaliadwy. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo hefyd y dylai fod yna hawl i amgylchedd iach gydag un yn nodi y gellid ychwanegu hyn at yr amcan cyffredinol sy'n gysylltiedig â lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd.

Mynegwyd gwahanol safbwyntiau ynghylch sut y dylai'r egwyddorion ychwanegol gael eu hymgorffori mewn deddfwriaeth Gymreig, gyda rhai o blaid diwygio Deddf yr

Amgylchedd (Cymru) ac eraill yn ffafrio darn newydd o ddeddfwriaeth yn ymdrin â'r pedair egwyddor.

Roedd y pedwar ymateb nad oeddent yn cytuno bod angen egwyddorion ychwanegol yn perthyn i'r sector cyhoeddus a'r sector cymdeithasau. Roeddent o'r farn bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn darparu digon o egwyddorion ychwanegol yn barod.

Dywedodd un ymatebydd ei bod yn anodd deall pam ddylai Cymru geisio gweithredu egwyddorion, a oedd wedi'u llunio o fewn cyd-destun penodol a'u gosod mewn system gyfreithiol nad yw'n gweithredu yn yr un ffordd. Roedd un arall yn teimlo bod angen ystyried egwyddorion amgylcheddol ochr yn ochr ag egwyddorion eraill (heb eu crybwyll) ac ystyriaethau cymdeithasol ac economaidd ehangach.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y dylai'r ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac i gymhwyso egwyddorion SMNR gael ei hestyn?

Atebodd 51 o ymatebwyr gwestiwn 3. Roedd 47 yn cytuno y dylid ymestyn y ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac roedd 4 yn anghytuno â'r cynnig.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn teimlo y dylai'r ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gael ei hymestyn a'i chymhwyso i bob corff cyhoeddus yng Nghymru. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn croesi gyda'r ymatebion i gwestiwn 4 yn aml.

Fodd bynnag, er bod cefnogaeth roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn rhoi rhyw fath o amodau ar hyn, ac amlinellir rhai ohonynt isod. Mewn cyferbyniad, ni wnaeth rhai ymatebwyr ddarparu unrhyw sail resymegol dros gefnogi ymestyn y ddyletswydd, dywedodd rhai eraill fod angen goruchwyllo adnoddau naturiol yn well, gyda rhai eraill yn teimlo bod angen cyfleu'n gliriach sut y byddai adfer a gwerthfawrogi ansawdd amgylcheddol uwch yn cyflawni lles amgylcheddol.

Ailadroddodd rhai ymatebwyr eu hymatebion i gwestiwn 2, er enghraifft drwy ychwanegu 'lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd' i'r amcan trosfwaol. Roedd nifer o ymatebwyr, mewn gwahanol ffyrdd, yn tynnu sylw at y ffaith bod angen sicrhau bod unrhyw estyniad yn cael ei wneud yn gydlynol â deddfwriaeth bresennol Cymru a chydag unrhyw gynigion i ddeddfu er mwyn ymgorffori gweddill egwyddorion yr UE yng nghyfraith Cymru.

Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynglŷn ag anawsterau rhai partiön o ran deall SMNR, a bod angen mynd i'r afael â hynny cyn ymestyn y ddyletswydd i gyrff eraill. Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at y ffaith bod y broses o roi SMNR ar waith yn ei dyddiau cynnar a bod angen gwell dealltwriaeth o oblygiadau ymarferol ac ariannol ymestyn y ddyletswydd. Dywedodd un arall ei bod yn bosibl y bydd angen ymestyn y ddyletswydd mewn ffordd symlach er mwyn sicrhau gwell ymgysylltiad o ganlyniad i'r gweithredu cynnar hwn.

Teimlai un ymatebydd y byddai ymestyn y ddyletswydd yn ychwanegu haen ychwanegol a diangen o gymhlethdod ac roedd y fframwaith deddfwriaethol

presennol a ddarperir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd yn ddigonol. Roedd un arall yn cefnogi'r farn hon drwy ddweud y byddai newid y ddyletswydd cyn i'w diben gwreiddiol gael ei ddeall a'i ymwreiddio yn ddryslyd i bawb ac y gallai arwain at sefyllfa lle nad yw'r diben gwreiddiol na'r gofynion newydd yn cael eu cyflawni.

Cyfeiriwyd at un o'r dyletswyddau SMNR presennol yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) – sef y ddyletswydd i gymhwyso'r egwyddorion craidd mewn ffordd gryfach nag 'ystyried dyletswydd' fel mewn deddfwriaeth arall, a dylai fod yn ofynnol wrth ymestyn y ddyletswydd SMNR. Roedd rhai o'r farn bod adran 6 (y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau) yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) yn darparu model ar gyfer cymhwyso dros gyfran eang o gyrff cyhoeddus.

Mewn rhai achosion, nodwyd y dylai ymestyn y ddyletswydd fod ar sail proses seiliedig ar dystiolaeth er mwyn sicrhau cyswllt clir rhwng y bylchau a nodwyd o ran darparu a chymhwyso'r ddyletswydd estynedig i gyrff penodol a'u cylchoedd gwaith a'r berthynas â datblygu cynaliadwy, fel y gwelir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Roedd enghreifftiau eraill a roddwyd yn cynnwys pwysigrwydd dyletswydd amgylcheddol drosfwaol i gefnogi gwella'r amgylchedd yn ymarferol.

Roedd ymgyrch WWF yn cefnogi ymestyn SMNR i gyrff cyhoeddus ac ymgyrch yr RSPB yn cefnogi cymhwyso pedair egwyddor yr UE ar draws pob corff cyhoeddus.

Cwestiwn 4: Pa gyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n gyfrifol am faes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli ddylai fod â dyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Atebodd 48 o ymatebwyr gwestiwn 4. Rhoddodd 45 ymatebydd farn ar y cyrff cyhoeddus y teimlent y dylai dyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) fod yn berthnasol iddynt. Nid oedd 3 yn cytuno â'r ddyletswydd i ymestyn SMNR ac felly ni wnaethant gynnwys unrhyw enghreifftiau. Nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol mewn ymatebion ar draws y sectorau.

Roedd yr ymatebwyr yn amrywio o ran cwmpas y cyrff cyhoeddus i'w cwmpasu gan y ddyletswydd arfaethedig, gan gynnwys:

- y diffiniad yn A6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- y diffiniad o 'awdurdod cyhoeddus' yn a6(9) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) sy'n ymestyn y ddyletswydd i grŵp eang o gyrff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus;
- pob corff cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau yng Nghymru;
- holl gyrff cyhoeddus Cymru;
- Gweinidogion Cymru, CNC, awdurdodau lleol a Gweinidogion y Goron.

Roedd rhai yn cynnig amodau, megis cyrff cyhoeddus gydag awdurdod dros faterion amgylcheddol a rôl mewn gweithredu deddfwriaeth amgylcheddol neu'r rhai sy'n derbyn arian gan Weinidogion Cymru. Dywedodd rhai ymatebwyr hyd yn oed os nad oedd rhai o'r cyrff yn dod o dan gymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dylid gofyn am gydsyniad gan Lywodraeth y DU i ddeddfu ar y cyrff hyn mewn

deddfwriaeth Gymreig, a'i fod yn gyfle i'r gweinyddiaethau gydweithredu. Roedd rhai o'r farn mai dim ond i'r rhai sy'n ymwneud â datblygu polisi a deddfwriaeth y dylid cyfyngu'r ddyletswydd.

Dywedodd rhai ymatebwyr na ddylai'r rhestr fod yn gyfyngedig, ond y dylid gallu cynnwys unrhyw gyrff cyhoeddus newydd.

Roedd cefnogaeth gyfyngedig hefyd i ystyried cynnwys partneriaethau cyhoeddus/preifat, megis y bargeinion dinesig, ac mewn ychydig iawn o achosion, y sector preifat ehangach.

Roedd y rhai nad oeddent yn ffafrio ymestyn yn ailddatgan eu hymatebion i gwestiwn 3, er enghraifft, gan ddweud y gallai gwneud hynny ychwanegu haen ychwanegol a diangen o gymhlethdod ac y dylid bod yn ofalus wrth ystyried hynny neu dylid mynd ati mewn modd cynyddrannol a symlach.

Yr oedd ymgyrch WWF yn cefnogi ymestyn SMNR i gyrff cyhoeddus.

Atebolrwydd

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r bylchau sydd wedi'u nodi neu a ydych chi'n credu bod angen ystyried bylchau eraill?

Rhoddodd y papur ymgynghori esboniad o system llywodraethu amgylcheddol yr UE a dadansoddiad o'r bylchau yn sgil yr hyn a fyddai'n cael ei gollu ar ôl ymadael â'r UE.

Roedd 52 o ymatebwyr yn ateb cwestiwn 5, 50 yn cytuno ar y bylchau a nodwyd, o'r 50 hyn, nododd 24 hefyd fylchau ychwanegol. Roedd 2 yn anghytuno.

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr o bob sector yn cytuno â'r bylchau a nodwyd. Crybwyllodd nifer o ymatebwyr fylchau ychwanegol, yr oeddent yn ystyried bod angen eu cynnwys:

- amddiffyn achwynwyr rhag atebolrwydd am gostau sy'n codi wrth ymchwilio i gŵyn a diogelu rhag gweithredu gan y rhai y gwnaed cwynion amdanynt;
- colli swyddogaethau monitro a chasglu data a gyflawnir gan sefydliadau'r UE a darparu data cyfanredol;
- colli mynediad at gyngor ac arweiniad, er enghraifft y cyngor a roddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop (EEA);
- adolygu a phennu safonau a chraffu ar berfformiad yn erbyn y safonau hyn;
- Pwerau i geisio unioni difrod a achosir gan dramgwydd;

Dywedodd un ymatebydd y dylai unrhyw system fod yn ddienw i'r achwynydd.

Roedd ymatebydd arall yn cydnabod y bydd yna fecanweithiau monitro ac adrodd o hyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Amgylchedd, ond nododd ymatebwyr eraill, er bod Cymru'n casglu rhywfaint o ddata cenedlaethol ac yn ei ddadansoddi, nid yw mor eang.

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar yr hyn yr oeddent yn ystyried y gallai fod yn ofynnol, gan gynnwys:

- parhau i gael mynediad i sefydliadau megis EEA, neu fel arall efallai y byddai angen ateb domestig;
- mynediad at ddigon o adnoddau, sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd

Roedd un ymatebydd o'r farn bod y dadansoddiad o fylchau yn mynd y tu hwnt i gwmpas y bylchau sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r UE drwy ystyried y bylchau o fewn systemau atebolrwydd domestig presennol.

Cwestiwn 6: Pa rôl ddylai cyrff atebolrwydd presennol ei chyflawni mewn strwythur llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru?

Cafwyd 37 o ymatebion i gwestiwn 6. Roedd gan yr ymatebwyr safbwyntiau amrywiol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gydag ymatebion yn perthyn i wahanol fathau o gategoriâu:

1. Roedd gan y cyrff atebolrwydd presennol gyfraniad a rôl werthfawr mewn fframwaith llywodraethu ond nid fel y mecanwaith penodedig ar gyfer llywodraethu amgylcheddol – y cyrff y cyfeiriwyd atynt fwyaf mewn ymatebion oedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol,
2. Ni allai'r cyrff atebolrwydd presennol ddarparu'r ateb i fynd i'r afael â'r bylchau (a ystyriwyd o dan gwestiwn 5), oherwydd y bylchau a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys diffyg annibyniaeth oddi wrth y Llywodraeth, diffyg profiad a'r anallu i orfodi penderfyniadau;
3. Yr angen am gorff newydd pwrpasol, a allai gyflawni'r holl swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni gan sefydliadau'r UE ar hyn o bryd ac fel ffordd o roi eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am lywodraethu amgylcheddol

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen 'hyrwyddwr amgylcheddol', ond roedd awgrymiadau eraill a gyflwynwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:

1. Creu Comisiynydd Cyfoeth Naturiol wedi'i gefnogi gan Banel Cynghori ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy;
2. Sefydlu Cynulliad Dinasyddion fel mecanwaith, er mwyn i gymdeithas sifil gael rhan fwy ffurfiol mewn gwaith goruchwyllo – cefnogwyd hyn gan y posibilrwydd y gallai'r goruchwyllo gynnwys mwy o gynrychiolaeth gyhoeddus o fewn, er enghraifft, pwyllgorau craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
3. System farnwrol sy'n dod agosaf at ddarparu cyfiawnder unigol ond nid yw adolygiad barnwrol heb ei broblemau ei hun;
4. CNC a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ysgwyddo swyddogaethau adrodd ychwanegol sy'n cael eu cyflawni gan sefydliadau'r UE ar hyn o bryd;
5. Cydweithredu rhwng cyrff presennol a'r corff newydd er enghraifft Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac unrhyw gorff newydd sy'n gweithio i hyrwyddo dull gweithredu cyfannol.

Cydnabuwyd gan rai ymatebwyr, pe bai cyrff presennol yn cael rôl mewn llywodraethu amgylcheddol, byddai angen diwygio eu swyddogaethau'n sylweddol. Cododd eraill bryderon am y posibilrwydd o ddryswch pe bai rôl y cyrff presennol yn cael ei hymestyn i gynnwys swyddogaethau a oedd yn ymwneud â goruchwyllo'r broses o roi cyfraith amgylcheddol ar waith. Roedd ymatebydd arall yn teimlo y gellid

ymestyn rôl rhai cyrff presennol a'i gwella i lenwi rhai bylchau, ond dywedodd ymatebwyr eraill ei bod yn bwysig nad yw rôl y cyrff presennol yn cael ei gwanhau na'i thanseilio mewn unrhyw ffordd.

Dywedwyd hefyd y byddai angen i unrhyw gorff newydd fod yn gyson â gwaith cyrff cyhoeddus sy'n bodoli eisoes (ategu a bod yn gydnaws â'u gwaith). Roedd hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth bod angen sicrhau nad oedd unrhyw systemau cwyno presennol yn cael eu dyblygu na chreu dryswch i ddinasyddion. Yr hyn oedd yn allweddol yn yr ymatebion hyn oedd yr angen am eglurder o ran rolau.

Cynigiodd un ymatebydd y dylai cyrff presennol adrodd yn ôl i unrhyw gorff goruchwylio newydd a chydymffurfio â'i ganllawiau.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen i unrhyw gorff goruchwylio newydd ddod o dan gylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol at ddibenion archwilio.

Cwestiwn 7: A yw'r rôl a'r nod a ddisgrifir yn briodol i gorff sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru?

Rhoddodd 48 o ymatebwyr ateb i gwestiwn 7. Cefnogwyd rôl ac amcan arfaethedig y corff yn gyffredinol, gyda 36 o ymatebwyr yn cytuno, 11 yn anghytuno ac 1 ymatebydd yn ansicr.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r rôl a'r amcanion a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori ar dudalennau 28 a 29, darparwyd rhai amodau ac ychwanegiadau. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai'r amcan fod yn glir er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu na gwrthdaro â chyrrff cyhoeddus eraill.

Ailadroddodd rhai ymatebwyr eu barn y dylai'r amcan cyffredinol fel y'i mynegwyd yng nghwestiwn 2 a 3 fod yn gymwys mewn perthynas â'r corff a'i amcanion gan adlewyrchu lefel uchel o ddiogelwch amgylcheddol. Roedd hyn yn cynnwys datblygu fframwaith cyffredinol ar gyfer gweithredu amcanion ac egwyddorion a oedd yn elfen graidd o'r fframwaith yr oedd corff yn gweithredu ynddo.

Dywedwyd mewn rhai ymatebion y dylai'r corff weithredu mewn ffordd glir, gymesur a thryloyw, sydd er budd y cyhoedd, gan wneud cysylltiadau ag egwyddor 'cymesuredd' (cwestiwn 2).

Roedd un maes a godwyd gan nifer o ymatebwyr yn ymwneud â rôl gynghori unrhyw gorff o'r fath, gyda rhai ymatebwyr yn bryderus y gallai wrthdaro â swyddogaethau gorfodi. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid rhoi eglurder ar y math o rôl gynghori (er enghraifft ar weithredu cyfraith amgylcheddol) i sicrhau nad oedd gwrthdaro o ran rôl Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â SMNR. Roedd eraill yn cydnabod rôl gynghori o fewn rôl graffu a bod corff yn llunio argymhellion ar y ffordd orau o gydymffurfio â'r gyfraith.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid cynnwys gorfodaeth fel amcan penodol. Roedd gorfodi'n cael ei ystyried yn rôl bwysig i rai ond roedd eraill o'r farn mai dewis olaf fyddai hyn. Dywedodd un ymatebydd na ddylid mesur llwyddiant corff newydd (ac yn wir rôl y Llywodraeth) yn ei swyddogaeth oruchwylio, yn ôl lefel gynyddol o ymchwilio a dirwyon ond yn hytrach yn ôl lefel isel o hynny a fyddai'n awgrymu bod y

ddarpariaeth yn cael ei rheoli llwyddiannus 'ar lawr gwlad' a chydymffurfiaeth ag amcanion amgylcheddol.

Teimlai nifer fach o ymatebwyr na ddylid rhoi pwerau i gorff i ymchwilio i gwynion nac i ymgymryd ag achosion cyfreithiol. Roedd eraill o'r farn bod angen iddi fod yn glir na fyddai gan y corff unrhyw rôl yn y gwaith o ddatblygu polisi.

Roedd rhai ymatebwyr yn cynnwys amcanion a fyddai'n gofyn am gydweithio â chyrrff cyhoeddus eraill hefyd.

Mae nifer fach o ymatebwyr yn ailadrodd ymatebion i gwestiwn 9 sef y dylid cyfyngu'r goruchwyllo i Lywodraeth ganolog ac nid ei hymestyn i gyrrff cyhoeddus eraill.

Roedd cydnabyddiaeth ar draws y sectorau y dylai corff newydd fod yn annibynnol a chael ei ariannu'n ddigonol ac na ddylai orgyffwrdd â rôl cyrrff presennol. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai gynnwys unigolion o amrywiaeth eang o gefndiroedd.

Ymdriniodd ymatebion ymgyrch WWF â'r cwestiwn hwn yn uniongyrchol, gan ddangos y byddai angen rhoi corff gwarchod cryf ac annibynnol ar waith i ymchwilio i'r modd y cyflenwir cyfraith amgylcheddol a gwneud yn siŵr y cymerir camau i unioni problemau, a chosbi camweddau.

Cwestiwn 8: Pa feysydd polisi y dylid eu cynnwys o fewn cwmpas y trefniadau llywodraethu newydd?

Atebodd 44 o ymatebwyr gwestiwn 8. Roedd 25 o ymatebwyr yn cytuno â'r meysydd polisi a restrwyd yn y papur ymgynghori. Roedd 14 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r meysydd polisi a restrwyd ond yn awgrymu meysydd ychwanegol hefyd, awgrymodd 5 ymatebydd feysydd polisi ychwanegol ond ni wnaethant nodi'n benodol a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r meysydd polisi a restrwyd yn y papur ymgynghori.

Yn gyffredinol, roedd y gefnogaeth i ddiffiniad eang ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi cynnwys yr hyn sydd yn adran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yng nghwmpas y diffiniad o adnoddau naturiol naill ai fel y mae neu fel sail ar gyfer diffiniad estynedig.

Gofynnodd nifer o ymatebwyr, er gan ddefnyddio terminoleg wahanol efallai, am i'r cwmpas gwmpasu pob mesur, sy'n effeithio ar yr amgylchedd neu sy'n debygol o effeithio arno. Rhoddodd rhai ymatebwyr enghreifftiau o'r meysydd hynny a allai gael effaith ar yr amgylchedd, neu ddod i gysylltiad ag ef, megis cemegion, amaethyddiaeth, bwyd, sŵn, ymbelydredd, allyriadau, gollyngiadau a phethau eraill sy'n cael eu rhyddhau i'r amgylchedd.

Rhoddodd ymatebwyr eraill enghreifftiau penodol o feysydd i'w cynnwys megis cynllunio, coedwigaeth, trafniadaeth, tai ac iechyd a hefyd newid yn yr hinsawdd yn ogystal â bioamrywiaeth.

Cynigiodd eraill ddiffiniad ar gyfer 'amgylchedd' gan addasu diffiniad yn unol â'r diffiniad o gyfraith amgylcheddol yn Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Cwestiwn 9: Ydych chi'n credu bod y rhestr o gyrff a gynigir yn briodol?

Cafwyd 43 o ymatebion i gwestiwn 9. O'r rhain roedd 16 yn cytuno â'r rhestr arfaethedig, roedd 26 yn anghytuno ac roedd 1 yn ansicr. O'r rhai oedd yn anghytuno, roedd y mwyafrif yn seiliedig ar gwmpas y rhestr, gan ystyried y dylai fod yn ehangach.

Roedd yr ymatebion i'r rhestr arfaethedig o gyrff oedd i ddod o dan gylch gwaith y trefniadau llywodraethu newydd yn amrywio, er eu bod yn debyg iawn i'r ymatebion i gwestiwn 4 y ddogfen ymgynghori ynghylch pa gyrff y dylai'r ddyletswydd SMNR ymestyn iddynt (os oedd ymatebwyr yn cytuno y dylai o dan gwestiwn 3).

Barn y mwyafrif oedd i'r cyrff sy'n dod o dan y cylch gwaith fod yn ystod eang o gyrff cyhoeddus ond fel yr amlinellwyd o dan gwestiwn 4, roedd amryw o ddiffiniadau o ystyr hyn, o'r holl gyrff cyhoeddus neu awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru (gweler y crynodeb o'r ymatebion i Gwestiwn 4) i bob corff cyhoeddus, gyda rhai ymatebwyr yn cydnabod y gallai rhai o'r cyrff hyn gael eu dosbarthu'n gyrff a gadwyd yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006¹. Cyfeiriwyd yn benodol at Weinidogion y Goron i'w cynnwys o fewn cylch gwaith unrhyw gorff goruchwylio Cymreig, gyda rhai yn cydnabod y gallai fod mecanwaith ar gyfer trosglwyddo i gorff y DU pe bai hynny'n briodol neu i'r gwrthwyneb pe cyflwynid i gorff y DU.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo, pe bai'n rhestr gyfyngedig o gyrff cyhoeddus, y dylai'r rhestr gynnwys awdurdodau parciau cenedlaethol a Trafnidiaeth Cymru. Ar y llaw arall, roedd nifer fach o'r farn mai dim ond Gweinidogion Cymru ddylai ddod o dan gylch gwaith corff goruchwylio. Roedd eraill o'r farn y gallai pob corff 'hyd braich' gael ei gynnwys yn fwy priodol drwy Weinidogion Cymru fel y pwynt cyswllt cyntaf.

Nid oedd rhai o'r ymatebwyr eraill o'r farn y dylai awdurdodau lleol gael eu cynnwys, ac roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn hefyd y dylai'r cylch gwaith gynnwys cynghreiriau corff cyhoeddus/sector preifat.

Dywedodd un ymatebydd bod angen eglurder er budd dinasyddion i sicrhau mynediad i gyfiawnder, gan gynnwys mewn ardaloedd a gadwyd yn ôl.

Cynigiwyd hefyd fod pŵer i ddiwygio'r rhestr er mwyn ychwanegu unrhyw gorff cyhoeddus a fyddai'n cael ei greu o'r newydd.

Cwestiwn 10: Ydych chi'n credu bod yna gyrff Cymreig eraill a ddylai hefyd ddod o dan gylch gwaith y corff?

Cafwyd 37 o ymatebion i gwestiwn 10. Roedd 32 o ymatebwyr wedi gwneud awgrymiadau ar gyfer cyrff ychwanegol ac roedd y 5 ymatebydd arall yn cytuno â'r rhestr yn y papur ymgynghori.

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at gwestiwn 10 yn eu hymatebion i gwestiwn 9 ac o'r herwydd mae'r crynodeb a ddarperir yng nghwestiwn 9 yn ymdrin â'r ymatebion i'r cwestiwn hwn hefyd ar y cyfan. Yn yr un modd â chwestiwn 9, cyfeiriwyd hefyd at yr

¹ Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017

ymatebion i gwestiwn 4 y ddogfen ymgynghori ynghylch y cyrff y dylai'r ddyletswydd SMNR ymestyn iddynt.

Yn ogystal, i'r ymatebion i gwestiwn 9, cafwyd rhai ymatebion ychwanegol mewn perthynas â rôl y sector preifat, cysylltiadau â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac ailadroddodd rhai y dylai'r cylch gwaith ymestyn hefyd i gyrff y gellid eu hystyried yn rhai a gadwyd yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn wahanol i gwestiwn 9, codwyd cynnwys y sector preifat gan fwy o ymatebwyr, gan gynnwys gan rai o fewn partneriaethau cyhoeddus/preifat. Hefyd, roedd rhai ymatebwyr o blaid cynnwys cyfleustodau, er bod un ymatebydd o'r farn bod y trefniadau rheoleiddio presennol yn ddigonol i gwmnïau o'r fath.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yna gyfle ar gyfer cysylltiadau agos â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnig y gellid cyflawni hyn drwy ddod â'r Comisiynydd o fewn cylch gorchwyl corff goruchwyllo, gyda chynrychiolydd o'r corff newydd yn eistedd ar banel cynghori'r Comisiynydd. Teimlwyd hefyd fod hyn yn angenrheidiol er mwyn atal unrhyw orgyffwrdd rhwng rolau.

Cafodd adolygiad o'r cyrff sy'n dod o dan gylch gorchwyl y corff ei gynnig hefyd gan un o'r ymatebwyr.

Cwestiwn 11: Beth ddylai statws, ffurf a chyfansoddiad corff goruchwyllo fod?

Cafwyd 48 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, a oedd yn cynnwys sylwadau a safbwyntiau amrywiol ynghylch statws, ffurf a chyfansoddiad y corff goruchwyllo, ac yn bennaf roedd cefnogaeth i'r rhai a restrwyd yn y papur ymgynghori.

Agweddau penodol a ystyriwyd yn bwysig oedd bod y corff yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ei fod yn dryloyw yn ei brosesau penodi (penodiad amhleidiol o bosibl) a'i ddull gweithredu a'i fod yn cael cyllideb wedi'i phenderfynu'n annibynnol, gyda rhai ymatebwyr yn dweud y byddai angen cyllid sefydlog a digonol arno. Roedd cefnogaeth hefyd i'r corff fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol ac yn destun archwiliad, sy'n cysylltu ag ymatebion i gwestiwn 6 bod y corff yn rhan o gylch gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Yn gyffredinol, adlewyrchwyd llawer o'r ymatebion yn y datganiad canlynol gan un ymatebydd:

"...Mae'n hanfodol bod corff amgylcheddol newydd yn ddigon annibynnol ar y Llywodraeth. Gellir cynorthwyo'r annibyniaeth hon drwy gyfuniad o nodweddion strwythurol amrywiol, gan gynnwys drwy ffynhonnell a phroses ariannu briodol; gweithdrefn gadarn a thryloyw ar gyfer penodi aelodau staff allweddol; ac atebolrwydd i Gynulliad Cymru yn hytrach na'r Llywodraeth."

Roedd rhai ymatebwyr yn cynnwys sylwadau pellach ar agweddau eraill, yr oeddent o'r farn eu bod yn bwysig hefyd o ran ei statws, ei ffurf a'i gyfansoddiad, gan gynnwys:

- gweithredu mewn ffordd glir a thryloyw;
- mynediad at arbenigedd a sgiliau perthnasol;
- bod y dinesydd yn ganolog iddo ac yn hawdd cael gafael arno;
- cael pwerau gorfodi

Ym mha bynnag ffordd y bydd corff yn cael ei gyfansoddi, dylai allu ymgymryd â'i swyddogaethau a chyflawni ei gylch gwaith. Soniodd nifer o ymatebwyr am yr arbenigedd sy'n ofynnol i gyflawni'r swyddogaethau – o'r cyfreithiol i'r technegol. Roedd un ymatebydd o'r farn y dylai allu cyfethol cyngor arbenigol gan sefydliadau eraill megis Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, ac roedd un ymatebydd o'r farn y gallai fod yn angenrheidiol i gorff allu gorfodi cydweithredu a mynnu cael gwybodaeth. Nododd un ymatebydd y gallai'r gronfa o arbenigedd ar draws y DU fod yn gyfyngedig.

Ailadroddodd rhai ymatebwyr eu hymatebion i gwestiwn 5 o ran mynediad at ddata a thystiolaeth.

Awgrymodd rhai ymatebwyr fodolau y gellid eu hefelychu, a oedd yn cynnwys:

- Siarter Brenhinol er enghraifft y Comisiwn Brenhinol ar Ddiogelu'r Amgylchedd;
- defnyddio modelau domestig sy'n bodoli eisoes megis y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, y Comisiynydd Gwybodaeth neu'r Comisiynydd Cydraddoldeb;
- gan ddefnyddio modelau rhyngwladol fel y Comisiynydd Seneddol dros yr amgylchedd fel y maent ar waith yng Nghanada neu Seland newydd.

Dywedodd nifer fach o ymatebwyr y byddai'n bwysig hefyd sicrhau cysylltedd ag unrhyw endid/endidau goruchwyllo eraill mewn gweinyddiaethau eraill ledled y DU. Dywedodd un ymatebydd fod hyn yn bwysig ar gyfer dulliau cydweithredol o ymdrin â phroblemau trawsffiniol fel difrod amgylcheddol trawsffiniol, er enghraifft, lle gallai'r tarddle a'r lleoliad lle gwelwyd effeithiau fod mewn gweinyddiaethau gwahanol.

Cwestiwn 12: A ddylai corff goruchwyllo gael gweithredu fel corff cynghori hefyd?

Cafwyd 48 o ymatebion i gwestiwn 12. Roedd 36 o'r rhain yn cytuno y dylai'r corff goruchwyllo allu gweithredu fel corff cynghori, er bod nifer o'r rhain wedi rhoi amod ar eu hymatebion hefyd, fel y disgrifir isod. Nid oedd 5 yn cytuno ac nid oedd 7 yn mynegi barn glir neu roeddent heb benderfynu.

Roedd nifer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn adleisio'r atebion yng nghwestiwn 7, a oedd yn cyfeirio at rôl gynghori corff. Dywedodd rhai ymatebwyr na ddylid dyblygu'r swyddogaeth gynghori a gyflawnir gan gyrff eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cafwyd barn gymysg ynghylch pa fathau o swyddogaethau cynghori y dylid eu cyflawni, roedd rhai yn cefnogi rôl gynghori oedd yn cefnogi cydymffurfiaeth â'r gyfraith a chyflawni amcanion, gan y dylai rôl gynghori o'r fath fod yn gysylltiedig â'i swyddogaethau gorfodi cyffredinol. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn na ddylai gael ei gyfyngu i gynghori ar SMNR ond yn hytrach ar unrhyw gyfraith amgylcheddol.

O'r rhai nad oeddent yn cytuno, roedd hyn yn bennaf ar y sail y gallai cyfrifoldebau cyfamserol y rolau cynghori a gorfodi greu tensiynau a gallai hynny danseilio uniondeb corff goruchwyllo. Dywedodd ymatebwyr eraill, er y gallai hyn fod yn risg, y gallai corff ddatblygu protocolau i fynd i'r afael â materion o'r fath. Fodd bynnag, nodwyd hefyd na ddylai corff goruchwyllo fod yn gorff cynghori yn bennaf.

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo y dylai corff allu cynghori'r Llywodraeth ar gynnwys polisi a deddfwriaeth yn ogystal â phennu safonau.

Roedd nifer fach o ymatebwyr yn pryderu bod disgwyl i gorff gynghori ar gyfraith amgylcheddol ynghyd â'i gorfodi yn groes i'w gilydd. Roedd eraill yn teimlo bod angen sicrhau bod y rolau rheoleiddio a gorfodi yn cael blaenoriaeth, yn enwedig os oedd adnoddau ac arbenigedd yn brin.

Yn fras, teimlai'r ymatebwyr y byddai defnyddio swyddogaeth o'r fath yn helpu i sicrhau bod cyfraith amgylcheddol yn cael ei rhoi ar waith. Byddai cyflawni swyddogaeth gynghori'n caniatáu i'r corff weithredu'n strategol, gan ledaenu arferion gorau. Roedd cefnogaeth hefyd gan rai ymatebwyr i rannu arfer gorau a'r hyn a ddysgwyd o ymchwiliadau neu benderfyniadau llysoedd.

Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai swyddogaeth gynghori'n gyson â'r egwyddor ataliol drwy helpu i leihau unrhyw broblemau cyn iddynt godi.

Roedd rhai ymatebwyr yn rhybuddio rhag rhoi gormod o faich ar y corff yn deillio o geisiadau am gyngor, y gallai cyrff eraill, megis Cyfoeth Naturiol Cymru, ymdrin â hwy'n well. Tynnodd ymatebydd arall sylw at y gofynion adnoddau angenrheidiol ar gyfer corff â swyddogaethau lluosog.

Roedd un ymatebydd o'r farn bod angen sicrhau y gallai'r corff gychwyn ymchwiliadau ei hun i ystyried materion systemig (fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori) yn ogystal â gweithredu ar gwynion gan unigolion/cymdeithas sifil, ac i'w argymhellion fod â statws cyfreithiol, a'i bod yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus eu dilyn fel rheol, oni bai fod yna reswm dilys a chymhellol yn ymwneud â budd y cyhoedd iddynt beidio â gwneud hynny. Dywedwyd hefyd y gallai argymhellion amrywio o ran lefel y manylder a ddarperir, yn dibynnu ar natur y mater dan sylw a'r corff/cyrrff y rhoddir y cyngor iddo/iddynt.

Defnyddiwyd y cwestiwn hwn hefyd i ailadrodd yr angen i gorff fanteisio ar arbenigedd eraill yng Nghymru a thu hwnt

Cwestiwn 13: A ddylai corff goruchwyllo gael craffu ar y modd y rhoddir deddfwriaeth amgylcheddol ar waith?

Cafwyd 49 o ymatebion i gwestiwn 13. Roedd cefnogaeth amlwg i sicrhau bod corff goruchwyllo'n gallu craffu ar y broses o weithredu deddfwriaeth amgylcheddol. O'r rhai a ymatebodd dim ond 1 oedd ddim yn cytuno.

Cydnabu nifer o ymatebwyr ei bod yn swyddogaeth nad oes unrhyw gorff arall yn ei chyflawni heblaw am Gomisiwn yr UE ac felly byddai'n swyddogaeth allweddol a gollir wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Er bod cefnogaeth gyffredinol i swyddogaeth graffu, adleisiwyd ymatebion tebyg mewn cwestiynau eraill o ran eglurder y rôl a'r angen i osgoi unrhyw ddyblygu gyda swyddogaethau cyrff eraill.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai rôl graffu fod yn gysylltiedig â gallu'r corff i wneud argymhellion ar sut y mae effeithiau deddfwriaeth nad yw'n amgylcheddol ar yr amgylchedd yn gadarnhaol. Yn ogystal, roedd cefnogaeth i gynnwys pŵer i gynnal adolygiadau thematig.

Cwestiynodd un ymatebydd yr angen am lefelau llywodraethu eraill gyda'r gost ychwanegol am fod y Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar Weinidogion Cymru ac am fod mynediad i adolygiad barnwrol yn darparu mecanweithiau digonol.

Ailadroddodd rhai ymatebwyr ymatebion i gwestiwn 5 o ran y cysylltiad â monitro ac adrodd. Galwodd un ymatebydd am eglurder ar lwybrau adrodd yn y dyfodol gan fod adroddiadau'n cael eu cyfuno ar lefel yr UE ar hyn o bryd. Cafwyd sylwadau hefyd ar yr angen am eglurhad pellach ar sut y mae adrodd a chyfuno data monitro amgylcheddol ar gyfer Cymru a'r DU yn erbyn gofynion rhyngwladol yn cael ei gyflawni a'i gyflwyno, ac ystyriwyd hynny'n hanfodol.

Cwestiwn 14: Beth fyddai hyd a lled y swyddogaeth hon?

Cafwyd 36 o ymatebion i gwestiwn 14. Oherwydd y cysylltiadau â chwestiwn 13, dewisodd llawer o'r ymatebwyr ymateb i un o'r ddau gwestiwn yn unig neu ailadrodd ymatebion i'r cwestiwn blaenorol. Felly, dylid darllen y cwestiwn hwn ar y cyd â chwestiwn 13. Roedd rhai ymatebion yn adlewyrchu'r atebion a roddwyd i gwestiynau 11 a 12 hefyd.

Gwnaed datganiadau tebyg gan nifer o ymatebwyr ynghylch yr angen i egluro rolau yn ogystal â sicrhau na ddyblygir rolau gyda chyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig CNC. Mae'r ymatebion isod yn adlewyrchu lle y darparwyd gwybodaeth ychwanegol, na chafodd ei thrafod yng nghwestiwn 13.

O ran bod corff yn gallu cynnal adolygiadau thematig, teimlai rhai y dylai hyn gwmpasu unrhyw gyfraith amgylcheddol a chael ei ddiffinio'n glir er mwyn galluogi i safonau amgylcheddol gael eu pennu a'u gorfodi. Dylid cynnal y broses adolygu thematig mewn modd agored, ystyriol ac ailadroddol. Dywedwyd y dylid gofalu nad oedd pŵer o'r fath yn rhy eang, gan olygu y gallai orgyffwrdd â swyddogaethau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Roedd meysydd ychwanegol yn cynnwys:

- cyngori ar gamau i'w cymryd, os yw corff yn ystyried, er enghraifft, nad yw Gweinidogion Cymru wedi gweithredu;
- byddai angen i unrhyw bŵer i ofyn am ddata gan gyrff cyhoeddus ystyried y cyfyngiadau o ran adnoddau a'r gyllideb ar y cyrff hynny;
- cyhoeddi gwybodaeth;
- gwella cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol a datrys materion drwy ddulliau cydweithredol lle bo modd cyn dibynnu ar brosesau cyfreithiol mwy llym;

- cyfrannu at y gwaith o oruchwylio cydymffurfiaeth â chytundebau amgylcheddol rhyngwladol;
- ymestyn ymhellach na deddfwriaeth amgylcheddol ac i bob deddfwriaeth a allai effeithio ar yr amgylchedd
- craffu ar ddeddfwriaeth sy'n bodoli'n barod, gyda nifer fach yn cynnig y dylid craffu ar ddeddfwriaeth ddrafft

Cododd un ymatebydd gwestiwn ynghylch sut y byddai corff yn blaenoriaethu ei swyddogaeth graffu ac a fyddai budd y cyhoedd yn cael ei ystyried yn y ffordd y byddai'n pennu blaenoriaethau. Dywedodd ymatebydd arall y gallai fod angen i'r dull fod yn gymedrol ar y cychwyn ond yn amodol ar adolygiad.

Yn olaf, mynegodd rhai ymatebwyr y farn y dylai'r corff goruchwylio gael ei gyfyngu i ddisodli'r rolau a ddarperir gan Gomisiwn yr UE a Llys Cyfiawnder Ewrop. O'r herwydd, y farn oedd na ddylai corff goruchwylio allu rhoi dirwyon gan mai dim ond y llysoedd ddylai allu gwneud hyn.

Cwestiwn 15: Pa bwerau ddylai corff feddu arnyn nhw i allu ymchwilio i gwynion gan aelodau'r cyhoedd am fethiant honedig corff cyhoeddus i roi cyfraith amgylcheddol ar waith?

Cafwyd 46 o ymatebion i gwestiwn 15, rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fanylion yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn ofynnol mewn gweithdrefn gwyno. Fodd bynnag cafwyd nifer o ymatebion, a oedd o'r farn bod y systemau presennol yn ddigonol ac nad oedd angen proses gwyno.

Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylid cael gweithdrefn gwyno gyda'r pwerau perthnasol i gynnal ymchwiliad sy'n deillio o gwynion yn ogystal ag o'i wirfodd.

Roedd cefnogaeth eang ar y cyfan i weithdrefn gwyno syml. I rai ymatebwyr roedd tryloywder a bod yn agored yn elfennau pwysig ar gyfer cynllunio unrhyw broses gwynion.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i gorff gael disgrisiwn o ran p'un a oedd gan gwyn ddilysrwydd (gyda rhai'n nodi y dylid cadw at gyfres glir o feini prawf) ac a oedd angen ymchwilio ymhellach ac uwchgyfeirio. Nododd un ymatebydd ei bod yn bwysig i rôl corff goruchwylio yn y maes hwn gael ei ddiffinio'n glir er mwyn galluogi aelodau'r cyhoedd i ddeall ei gylch gwaith.

Cynigiodd nifer o ymatebwyr feini prawf allweddol, a ystyriwyd yn bwysig ganddynt, yn ogystal â phroses syml a rhad ac am ddim, gan gynnwys: cadw achwynwyr yn anhysbys; darparu diweddariadau rheolaidd; a rhoi cyngor i'r achwynydd pam na fyddai cwyn yn cael ei hystyried ymhellach; ymatebion amserol; a chanolbwyntio ar ganlyniadau.

Awgrymiadau eraill a wnaed oedd y dylai'r corff fod â'r gallu i drosglwyddo cwynion i gyrrff eraill yn y DU sy'n gyfrifol am lywodraethu amgylcheddol. Barn arall a fynegwyd oedd na ddylai corff goruchwylio fod yn ffordd arall o ailedrych ar benderfyniad oni bai ei bod yn amlwg bod y broses wedi methu.

Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at bŵer i ofyn am wybodaeth a gorfodi cael mynediad at wybodaeth a thystion. Er bod un ymatebydd o'r farn bod gwerth mewn cynnwys yr achwynydd yn barhaus drwy gydol y broses, gan gynnwys ystyried eu barn yn y broses o wneud penderfyniadau hyd at ganfod atebion.

Cafwyd cyfeiriadau gan un ymatebydd at y mathau o opsiynau gorfodi yn y cwestiwn hwn gan gynnwys pŵer i gorff orfodi rhywun i unioni unrhyw ddifrod a achoswyd i'r amgylchedd, pe bai'n cael ei ganfod yn gyfrifol am ei achos.

Roedd rhai ymatebwyr eraill yn teimlo bod y mecanweithiau cwyno presennol i gyrrff cyhoeddus yn darparu proses briodol eisoes, a oedd yn cael ei chefnogi gan fecanwaith pellach naill ai drwy fynd at Ombwdsmyrn, y Cynulliad neu'n olaf drwy'r weithdrefn adolygiad barnwrol. Roedd un arall o'r farn y dylid dilyn yr holl brosesau sy'n bodoli eisoes cyn i gŵyn gael ei chodi gyda chorff goruchwylio.

Teimlai un ymatebydd pe bai gweithdrefn gwyno'n cael ei chyflwyno, dim ond i gwynion yn erbyn nifer cyfyngedig o gyrrff y dylai fod yn berthnasol, ac ni ddylai ymestyn i gwynion yn erbyn unigolion preifat.

Roedd ymgyrchoedd WWF a'r RSPB o blaid corff sy'n gallu derbyn ac ymchwilio i gwynion a'u datrys. Pwysleisiodd ymgyrch WWF fod angen i ddinasyddion allu gwneud cwynion yn ddirwysr.

Cwestiwn 16: Pa ddulliau gorfodi anffurfiol a ffurfiol ydych chi'n credu y dylai corff goruchwylio eu cynnal er mwyn cyflawni ei rôl a'i amcanion?

Cafwyd 41 o ymatebion i gwestiwn 16 a oedd yn rhoi safbwyntiau amrywiol ar bwerau posibl mewn perthynas â phwerau gorfodi.

Roedd cefnogaeth gref i'r dull gweithredu yn 3.52 yn y ddogfen ymgynghori, gan amlinellu dulliau gorfodi anffurfiol a ffurfiol, gan gynnwys hysbysiadau ffurfiol, hysbysiadau barn, argymhellion ac atgyfeiriadau i'r llys.

Roedd nifer o ymatebwyr yn cydnabod gwerth dull uwchgyfeirio drwy fynd i'r afael â phroblemau mor gynnar â phosibl a defnyddio dulliau amrywiol, a fyddai'n osgoi neu'n lleihau'r defnydd o fecanweithiau ffurfiol, yn enwedig atgyfeirio i'r llys. Er bod rhai o'r farn bod rôl mecanweithiau anffurfiol yn amodol arnynt yn arwain at ganlyniadau gwell, roedd eraill yn ystyried mai cynorthwyo cydymffurfio ddylai fod y flaenoriaeth i gorff goruchwylio, yn hytrach na mabwysiadu dull cosbol, ac y gallai dull mwy cadarn gael ei fabwysiadu'n ddiweddarach mewn achosion lle na chafwyd unrhyw gamau unioni. Teimlai un ymatebydd na ddylai fod unrhyw ofyniad ar gorff i geisio dull cydweithredol cyn y gallai uwchgyfeirio i weithdrefnau ffurfiol.

Nodwyd y byddai angen i'r broses a'r defnydd o ddulliau gorfodi anffurfiol fod yn dryloyw, a phwysleisiodd rhai ymatebwyr y dylid gwella cyflymder dulliau anffurfiol o gymharu â system bresennol yr UE, nad oeddent yn ei hystyried yn ddigonol.

Nododd yr ymatebwyr amrywiaeth o ddulliau anffurfiol a ffurfiol, o ddeialog, ymgynghori, cyflafareddu neu gyfryngu â hysbysiadau cynghori, hysbysiadau gorfodi cyfreithiol rwymol (er enghraifft gorchymyn atal, hysbysiadau unioni a

chyfarwyddiadau i gyflawni camau penodol), dirwyon, panel barnwrol annibynnol ac ymchwiliad barnwrol ac yn olaf atgyfeirio i'r llys.

Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai uwchgyfeirio o gamau anffurfiol i rai ffurfiol yn dibynnu ar ddifrifoldeb y mater neu ar lwyddiant y dulliau anffurfiol.

Roedd nifer o ymatebwyr o blaid defnyddio dirwyon ond roedd barn gymysg ar y dull o'u cymhwyso, gyda rhai'n ffafrio dirwyon fel ateb profedig a ddefnyddir gan yr UE, roedd rhai o'r farn y dylid eu defnyddio fel rhan o ddull uwchgyfeirio, gydag eraill yn annog pwyll, o ystyried y byddent yn cael eu talu o bwrs y wlad yn y pen draw. Fodd bynnag, nid oedd ymatebwyr eraill wrth ymateb i gwestiwn 14 yn cytuno â'r math hwn o bŵer gan ddweud y dylid cyfyngu dirwyon i gylch gwaith y llysoedd.

Cododd llawer o ymatebwyr bryderon ynghylch priodoldeb adolygiad barnwrol. Roedd y pryderon hyn yn canolbwyntio ar ei gyfyngiadau wrth ystyried prosesau yn hytrach na theilyngdod a'i hygyrchedd. Mewn cyferbyniad, roedd ymatebydd arall yn teimlo bod prosesau barnwrol cyfredol yn ddigonol i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ac yn cwestiynu mantais rôl orfodi gan y corff.

Ym marn rhai, pe bai'n ofynnol i gorff gydweithio â chyrrff eraill, ni ddylid gwneud hynny yn y fath fodd, gan y byddai hynny'n cyfyngu ar ei hyblygrwydd i bennu ei dulliau gorfodi.

Ni chafodd y cwestiwn hwn ei ateb yn uniongyrchol gan yr ymgyrchoedd ond cyfeiriwyd at yr angen am bwerau gorfodi cryf gan ymgyrch yr RSPB.

Cwestiwn 17: Pa gamau gorfodi ddylai fod ar gael yn eich barn chi?

Cafwyd 42 o ymatebion i gwestiwn 17 yn awgrymu'r mathau o gamau gorfodi a ddylai fod ar gael, fodd bynnag, roedd llawer o'r rhain yn cyfeirio at yr ymatebion a roddwyd yng nghwestiwn 16 neu'n ymdrin â'r ddau gwestiwn gyda'i gilydd. Mae'r ymatebion a amlinellir yma'n canolbwyntio ar y rhai a oedd yn ychwanegol at unrhyw sylwadau y cyfeirir atynt yng nghwestiwn 16.

Roedd cefnogaeth gref i'r pŵer i gynnal achosion llys, darpariaeth ar gyfer dirwyon neu gosbau ariannol o fewn fframwaith uwchgyfeirio, er mwyn gallu ymdrin â phob mater mewn ffordd gymesur. Roedd ymatebwyr eraill wedi cynnig atgyfeirio i'r llys os na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o'r mecanweithiau eraill, megis hysbysiadau rhwymol. Cynigiodd ymatebydd arall y dylid defnyddio dirwyon i ariannu prosiectau diogelu'r amgylchedd, a dywedodd un arall y dylai dirwyon fod yn sylweddol, ac i'r gwrthwyneb, roedd ymatebwyr eraill yn teimlo y dylent fod yn gymesur.

Yn dilyn ymlaen o'r farn ar y broses adolygiad barnwrol a roddwyd yng nghwestiwn 16, roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu bod angen gwelliannau i'r broses hon, gan gynnwys rheolau gwell ar barhad, costau, dwyster adolygu a chamau unioni a'r gallu i ymgorffori elfennau o'r system dribiwnlys (megis mynediad at gynghorwyr technegol). Yn gyffredinol, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai proses y llys allu cynnal adolygiad gweithdrefnol a sylweddol.

Cafwyd cefnogaeth gan rai ymatebwyr i'r angen i gorff allu ymuno neu ymyrryd mewn ceisiadau am adolygiad barnwrol.

Gofynnodd un ymatebydd a oedd posibilrwydd o gyfeirio achosion at y Tribiwnlys Amgylcheddol presennol yn hytrach na'r Uchel Lys, a allai ddarparu fforwm addas ar gyfer rheolau a gweithdrefnau wedi'u teilwra. Ffaffriwyd hyn fel proses fwy ymchwiliol sy'n canolbwyntio ar ddarparu atebion. Roedd un ymatebydd o'r farn y gallai fod angen llys penodol ar gyfer yr amgylchedd, y gallai fod angen ei ategu gan bwerau gorfodi pwrpasol.

Teimlai un ymatebydd nad mecanweithiau gorfodi sydd fwyaf priodol bob amser o reidrwydd o gymharu â dull cyfannol ac integredig, a fyddai'n fwy priodol ar gyfer mynd i'r afael â materion amgylcheddol, sy'n torri ar draws sawl adran o'r Llywodraeth. Teimlwyd y dylai corff goruchwyllo geisio helpu i ddatrys problemau yn y lle cyntaf yn hytrach na cheisio mabwysiadu mesurau cosbi.

Mewn cyferbyniad, roedd ymatebydd arall yn ffafrio dull tebyg i achos tordyletswydd, gyda'r corff goruchwyllo'n cael y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i bob corff ddarparu ei wasanaethau penodedig.

Cwestiwn 18: A fyddai mantais rhannu set graidd o egwyddorion amgylcheddol cyffredin?

Cafwyd 46 o ymatebion i gwestiwn 18 ac roedd cefnogaeth gref iawn (40 o ymatebwyr) i set gyffredin o egwyddorion amgylcheddol cyffredin ar draws y DU gyda dim ond 1 ymatebydd unigol yn anghytuno; a 5 yn rhoi ymateb mwy gochelgar gan eu bod yn teimlo ei bod yn annhebygol y byddai'n bosibl neu y gallent weld manteision ac anfanteision.

Lle mynegwyd pryderon, roedd rhai o'r rhain yn canolbwyntio ar y dull blaengar a gymerwyd yng Nghymru ac nid oeddent am wanhau'r safon bresennol mewn deddfwriaeth Gymreig o blaid cytundeb ledled y DU.

Codwyd pwyntiau'n awgrymu y byddai mabwysiadu set graidd o egwyddorion amgylcheddol cyffredin yn helpu i atal:

- Ras reoleiddiol 'i'r gwaelod' fel set o egwyddorion a rennir a fyddai'n atal dadreoleiddio'r safonau amgylcheddol ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd;
- Unrhyw ddryswch posibl ymhlith busnesau sy'n gweithio ar draws ffiniau tiriogaethol mewnol y DU;

Yn gyffredinol, dywedwyd mai manteision dull gweithredu cydgysylltiedig o'r fath yw:

- Caniatáu i'r pedair gweinyddiaeth gydweithio;
- Trin pawb yn yr un modd yng nghyd-destun busnes a'r potensial ar gyfer partneriaethau economaidd yn y dyfodol;
- Rhoi darlun cliriach i fusnesau a'r cyhoedd, gan sicrhau dull cyffredin o gynnal safonau amgylcheddol.

Nododd un ymatebydd y byddai angen dull gweithredu cyffredin hefyd wrth gymhwyso'r egwyddorion.

Cwestiwn 19: Pa strwythurau llywodraethu posib sydd eu hangen yn eich barn chi i alluogi cydweithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd er mwyn caniatáu rhyngwyneb rhwng gweinyddiaethau?

Cafwyd 46 o ymatebion i gwestiwn 19 a oedd yn darparu amrywiaeth eang o strwythurau llywodraethu posibl.

Roedd rhai ymatebwyr wedi crybwyll gwerth ymateb DU gyfan mewn cwestiynau cynharach, sydd wedi'u cynnwys yn yr ymateb hwn. Yn benodol, teimlai rhai o'r ymatebwyr hyn y byddai dull gweithredu DU gyfan yn lleihau pa mor agored i niwed yw corff sy'n cael ei wanhau neu ei ddiddymu gan un ddeddfwrfa.

Er bod yn well gan rai dull gweithredu DU gyfan, cafodd y cyfyngiadau amser o ganlyniad i'r amserlen ar gyfer Bil Amgylchedd y DU eu cydnabod fel problem bosibl wrth gyflawni unrhyw rhyngwyneb ar gyfer y DU gyfan. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod angen strwythurau llywodraethu a chydweithio ar draws y gweinyddiaethau, a thynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen i fynd i'r afael â materion trawsffiniol. Rhesymau eraill a roddwyd gan rai ymatebwyr oedd mantais mynediad i gronfa ehangach o adnoddau ac arbenigedd yn ogystal â rhannu arferion gorau ac yn fwy cyffredinol arbedion maint.

Dywedodd llawer o ymatebwyr fod angen mecanweithiau cydweithio hefyd i sicrhau bod cwyn a wneir mewn un weinyddiaeth yn cael ei hystyried gan y corff llywodraethu priodol.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at bwysigrwydd cyd-gynllunio unrhyw ddull gweithredu ar gyfer y DU gyfan, boed yn gorff ar gyfer y DU gyfan neu ddull cydweithredol rhwng gweinyddiaethau.

Crybwyllwyd nifer o sefydliadau a oedd yn bodoli eisoes fel modelau posibl i'w hystyried, gan gynnwys Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC), Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), y Comisiynydd Gwybodaeth, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol neu baneli technegol fel Grŵp Cynghori Technegol y DU (UKTAG) ar y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Roedd ymatebwyr yn cynnig hefyd y gallai'r dulliau posibl fod yn brotocolau neu Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu'n ddyletswydd statudol ar gyffwrdd llywodraethu amgylcheddol ledled y DU i gydweithio a chydweithredu, gydag egwyddorion cyffredin ac amcan lefel uchel a rennir.

Roedd nifer fach o ymatebwyr hefyd a oedd o blaid adolygiad o strwythurau llywodraethu ledled y DU ymhen pum mlynedd i asesu a oeddent yn effeithiol.

Ni atebwyd y cwestiwn hwn yn uniongyrchol o fewn ymatebion yr ymgyrchoedd ond cyfeiriodd ymatebion yr RSPB at yr angen i sicrhau cydweithio parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a gwledydd eraill y DU i wneud yn siŵr bod ein hymrwymadau rhyngwladol i natur a'r amgylchedd yn cael eu cyflawni.

5. Digwyddiadau ymgynghori

Cynhaliwyd dau weithdy ymgynghori a hwyluswyd yn annibynnol, un yn Aberystwyth ac un yng Nghaerdydd.

Roedd presenoldeb yn y digwyddiadau fel a ganlyn:

Prifysgol Aberystwyth 26/04/19	11
Neuadd y Ddinas Caerdydd 10/05/19	21

Daeth y rhai a fynychodd o'r sectorau canlynol:

- Academyddion
- Y Trydydd Sector
- Cyfleustodau
- Y Sector Cyhoeddus
- Diwydiant
- Unigolion

Bydd adroddiad cryno o'r digwyddiadau ymgynghori yn cael ei gyhoeddi law yn llaw â'r adroddiad hwn.

Atodiad A

Rhestr o'r ymatebwyr

Chris Higgings

CIWEM

Hilary Evans

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Marlin Industries

Vicky Moller

Sustainable Food Trust

Hybu Cig Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru / Swyddfa Archwilio Cymru

Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth

Y Gynghrair Cefn Gwlad

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru

RSPB

Cytûn

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Scottish Power

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Parciau Cenedlaethol Cymru

WWF

Client Earth

CLA Cymru

PLANED

Mineral Products Association

Wyeside Consulting

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Social Farms and Gardens

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS)

Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Queens Belfast

Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r Gynghrair dros Dirluniau Dynodedig Cymru

Cynghrair y Tyfwyr Organig a Chynghrair Gweithwyr y Tir Cymru

Undeb Amaethwyr Cymru

Len Wyatt

Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Oil and Gas UK
Energy UK
Dŵr Cymru
Cyswllt Amgylchedd Cymru
CLILC
Chemical Industries Association
LARAC
Y Sefydliad Tirwedd
CIEEM
Confor
Cymdeithas Cyfraith Amaethyddol
Ifan Stoddart
Gareth Wardell
Afonydd Cymru Cyfyngedig
Paramaethu Cymru
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
M Parker
Coed Cadw
Ukela

ATODIAD B

Dyraniad yn ôl sector

Sector	DU/other
Academaidd	IBERS
	Prifysgol Caerdydd/Queens Belfast
Cymdeithasau / Sefydliadau	CIWEM (Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd)
	Hybu Cig Cymru
	CLA Cymru
	Mineral Products Association
	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol
	Chemical Industries Association
	LARAC
	Y Sefydliad Tirwedd
	CIEEM
	Confor
	Anhysbys
	Unigolion
Hilary Evans	
Anhysbys	
Huw Morgan	
Vicky Moller	
Anhysbys	
Len Wyatt	
Anhysbys	
Anhysbys	
Ifan Stoddart	
Gareth Wardell	
M Parker	
Cyfreithiol	Wyeside Consulting
	Cymdeithas Cyfraith Amaethyddol
Sector Preifat	Marlin Industries
Sector Cyhoeddus	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
	AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
	Archwilydd Cyffredinol
	Comisiynydd Gwybodaeth Cymru
	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Iechyd Cyhoeddus Cymru
	CLILC
	Parciau Cenedlaethol Cymru
Y Trydydd Sector	RSPB Cymru
	WWF Cymru
	Client Earth
	PLANED
	Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
	Social Farms and Gardens
	Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r Gynghrair dros Dirluniau Dynodedig Cymru
	Sustainable Food Trust
	Y Gynghrair Cefn Gwlad
	Cynghrair y Tyfwyr Organig a Chynghrair Gweithwyr y Tir Cymru

	Ymddiriedolaethau Natur Cymru
	Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod
	Cyswllt Amgylchedd Cymru
	Afonydd Cymru Cyfyngedig
	Paramaethu Cymru
	Coed Cadw
	UKELA – Cangen Cymru
	Cytûn
Cyfleustodau	Dŵr Cymru
	Scottish Power
	Oil and Gas UK
	Energy UK
Undebau	NFU Cymru
	Undeb Amaethwyr Cymru

ATODIAD C

Ymateb Ymgyrch RSPB Cymru

Annwyl Dîm Llywodraethu Amgylcheddol,

Rwy'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oes dirywiad mewn safonau amgylcheddol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Cytunaf hefyd fod gwrthdroi dirywiad natur a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn hanfodol i sicrhau ein dyfodol.

Felly, rwy'n croesawu eich ymgynghoriad ar Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac yn galw am gyfreithiau newydd i wneud y canlynol:

- Ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru gymhwyso egwyddorion amgylcheddol yr UE ar draws eu holl swyddogaethau
- Creu corff newydd i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni cyfraith a pholisi amgylcheddol yng Nghymru. Mae angen i gorff newydd fod yn annibynnol, yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a chael pwerau i dderbyn ac ymchwilio i gwynion, ynghyd â phwerau gorfodi cryf
- Cryfhau ein deddfau presennol trwy greu targedau cyfreithiol ar gyfer adfer natur, y gellir dwyn y Llywodraeth hon a llywodraethau'r dyfodol i gyfrif yn eu herbyn
- Sicrhau cydweithio parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a gwledydd eraill y DU i sicrhau bod ein hymrwymiaidau rhyngwladol i natur a'r amgylchedd yn cael eu cyflawni

Rydym yn dibynnu ar natur, ac mae adferiad natur yn dibynnu ar arweinyddiaeth a gweithredu cryf gan y Llywodraeth.

Yn gywir,

Ymateb Ymgyrch WWF

Annwyl Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,

Ystyriwch yr e-bost hwn fel fy ymateb i'ch ymgynghoriad ar Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r cloc yn tician o ran colli bioamrywiaeth, mae cannoedd o rywogaethau yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Mae'r aer rydym yn ei anadlu, y dŵr rydym yn ei yfed ac iechyd ein hafonydd, ein moroedd a'n hecosystemau i gyd yn dibynnu ar amgylchedd

iach. Hebddynt, ni allwn gael y gymdeithas a'r economi gynaliadwy yr ydym oll yn ei chwennych.

Wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd, rwyf am i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle hwn i gynnal a chryfhau'r amddiffyniad sydd gennym o fewn yr UE ac adeiladu arno er mwyn diogelu ein treftadaeth naturiol yn well ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nid wyf am weld ein dulliau o ddiogelu'r amgylchedd yn gwanhau, a natur Cymru'n talu'r pris.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn rwyf am weld Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cyfres glir o gynigion ac amserlen i gyflawni eu hymrwymiaidau cyn etholiad nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2021. Rwyf am i Lywodraeth Cymru sicrhau:

- Ein bod yn cadw ac yn cryfhau holl egwyddorion amgylcheddol yr UE yng nghyfraith Cymru fel eu bod yn parhau i arwain y broses o ddatblygu cyfreithiau, polisïau a phenderfyniadau newydd. Mae'n rhaid eu diffinio'n glir yng nghyfraith Cymru a gweithio tuag at amcan trosfwaol i wella'r amgylchedd.
- Ymestyn y ddyletswydd i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy i bob corff cyhoeddus yng Nghymru.
- Sefydlu corff gwarchod cryf ac annibynnol i ymchwilio i'r modd y cyflawnir cyfraith amgylcheddol a gwneud yn siŵr y cymerir camau i unioni problemau a chosbi camweddau. Drwy hynny gall camgymeriadau gael eu hunioni, a gellir ymwrthod ag arferion gwael.

Rwyf am fod yn siŵr hefyd y byddaf i, fel dinesydd, yn parhau i fod â'r rhyddid i wneud cwyn ac yr ymchwilir iddi a gweithredu ar fy rhan. Rhaid i hyn allu arwain at gamau sy'n unioni'r broblem. I gyflawni hyn, rwyf am i gorff newydd gael ei sefydlu, gan nad oes corff yn gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd sydd â'r pŵer, y cylch gwaith, yr arbenigedd, yr annibyniaeth a'r adnoddau i gyflawni'r rôl hon.

Mae'n bwysig iawn i mi fod y system sydd wedi helpu i wella ein hamgylchedd dros y deugain mlynedd diwethaf yn parhau, a'i bod yn cael ei chryfhau i fynd ati i adfer natur Cymru. Rhaid i Gymru adeiladu ar ei deddfwriaeth amgylcheddol arloesol bresennol a gosod esiampl o sut i ddiogelu ein hamgylchedd gwerthfawr i weddill y byd.

Yn gywir,